# Uned 12

# Mastitis

# Taflen Wybodaeth

## Cyflwyniad

Mae Mastitis yn golygu "llid ar y chwarren laeth neu'r pwrs".
Gall hyn ddigwydd o achos haint neu niwed.
Y math o bathogen sy'n heintio'r pwrs fel arfer yw bacteria sydd wedi cael mynediad trwy bibell y deth.

Mae'r llid yn achosi ymateb imiwnyddol yn syth. Gwelir hyn wrth i gelloedd gwyn y gwaed gael eu trosglwyddo i'r llaeth i ymladd y bacteria ymosodol. Canlyniad hyn yw nifer celloedd somatig uwch yn y llaeth, a gostyngiad yng nghynnyrch y llaeth.

## Llymder y clefyd

Mae'n cael ei ddosbarthu'n ôl y symptomau

- **Llym** - y fuwch yn sâl iawn
- **Lledlym** – clotiau bychain yn y llaeth
- **Cronig** - di-boen a'r llaeth yn normal.

## Ffurfiau o Fastitis

Mae Mastitis yn cael ei ddosbarthu fel arfer yn ôl yr hyn mae'r ffermwr llaeth/dyn stoc yn gallu ei weld
.

- Mastitis Clinigol
- Isglinigol

1. **Mastitis Clinigol** - gwres, poen a chwydd annormal yn y pwrs neu deth heintus. Gall llaeth o'r deth heintus fod o ansawdd annormal, gyda chlotiau a lliw gwahanol.

2. **Mastitis Isglinigol** yw haint ym meinweoedd y pwrs sydd ddim yn dangos arwyddion llid gweladwy.

## Mastitis yn y Fuwch Odro

Mae gwartheg yn dal y pathogen (organeb sy'n achosi'r clefyd) mewn un o 2 ffordd

- O fuwch arall
- O'r amgylchedd

## Pathogenau Mastitis Cyffredin

| Math o facteria | Ffynhonnell arferol | Dull ymledu | Mesurau rheoli |
|---|---|---|---|
| **Streptococcws agalactiae** | Pwrs heintus | Buwch i fuwch:<br>i. peiriant godro<br>ii. dwylo'r godrwr<br>iii. clytiau pwrs | • Dipio'r tethi<br>• Triniaeth llaetha (therapi blits)<br>• Gweithredu hylendid godro llym<br>• Therapi buwch sych<br>• Profi'r peiriant godro'n rheolaidd<br>• Godro'r gwartheg heintus yn olaf |
| **Streptococcws dysgalactiae** | Pwrs heintus. Briwiau ar y tethi | Buwch i fuwch:<br>i. peiriant godro<br>ii. dwylo'r godrwr<br>iii. clytiau pwrs | • Dipio'r tethi<br>• Triniaeth llaetha<br>• Gweithredu hylendid godro llym<br>• Therapi buwch sych<br>• Godro'r gwartheg heintus yn olaf |
| **Staffylococws awrews** | Pwrs heintus. Briwiau ar y tethi | Buwch i fuwch:<br>i. peiriant godro<br>ii. dwylo'r godrwr<br>iii. clytiau pwrs | • Dipio'r tethi<br>• Triniaeth llaetha<br>• Gweithredu hylendid godro llym<br>• Therapi buwch sych<br>• Godro'r gwartheg heintus yn olaf<br>• Difa gwartheg heintus cronig |
| **Streptococcws wberis** | Amgylchedd Gwartheg yn cludo'r haint | Buwch i fuwch:<br>i. peiriant godro<br>ii. dwylo'r godrwr<br>iii. clytiau pwrs | • Gwella hylendid dan do<br>• Dipio'r tethi<br>• Triniaeth llaetha<br>• Therapi buwch sych |
| ***Escherichia Coli*** | Amgylchedd | Gwasarn/gwely Slyri | • Gwella hylendid dan do<br>• Cadw'r gwasarn/gwely yn ffres a sych<br>• Triniaeth llaetha<br>• Crafu'r slyri'n aml |

**<u>Rheoli Mastitis</u>**

Prif amcanion rhaglen reoli mastitis yw:

- Cael gwared â'r haint sy'n bodoli mor fuan â phosibl
- Lleihau cyfradd yr haint newydd.

**Cynllun 5 pwynt**

1) Trin yr holl achosion clinigol
2) Defnyddio therapi buwch sych
3) Difa achosion mastitis parhaus a rhai sy'n ailddigwydd
4) Defnyddio dip tethi ar ôl godro
5) Profi'r peiriant godro'n rheolaidd.

**Ffigurau targed ar gyfer mastitis yw:**

- Cyfradd Mastitis: 30 achos mewn 100 o wartheg y flwyddyn
- Nifer Gyr: uchafswm 20% o wartheg yn cael eu heffeithio'r flwyddyn
- Cyfradd Dychwelyd: llai na 10%
- Defnydd Tiwb: defnyddio 4.5 o diwbiau'r flwyddyn ar gyfer bob buwch odro mewn buches.

Diffinnir achos mastitis fel chwarter pwrs (un deth) wedi ei heffeithio unwaith. Os yw buwch yn lloea â mastitis yn y pedair teth, cofnodir pedwar achos o fastitis.

## Mastitis mewn Defaid

Mae Mastitis mewn defaid yn cael ei achosi'n bennaf gan:

- Manheimia hemolytica (Pasteurela'n flaenorol)
- Staffylococws awrews

Achosion llai cyffredin eraill

- Streptococws *spp.*
- E. Coli

**Ffurfiau o Fastitis mewn Mamogiaid**

1. **Llym** - mae mastitis yn ymddangos yn sydyn ac yn cael ei nodweddu gan arwyddion clinigol megis cochni, gwres a chwarennau llaeth y pwrs wedi chwyddo. Crawn neu glotiau llaeth yn cael eu tynnu o'r tethi. Gall y clefyd hwn ymddangos yn aml yn yr wythnosau cyntaf ar ôl ŵyna.

2. **Cronig** - mae mastitis yn ymddangos gan fod meinweoedd y pwrs yn crebachu a/neu lympiau'n bresennol yn un neu ddwy chwarren laeth

3. **Isglinigol** - mae'r pwrs a'r llaeth yn ymddangos yn normal. Fodd bynnag, gall bacteria gael ei neilltuo o'r llaeth

**Trin Mastitis**

- Antibiotigau drwy'r deth
- Antibiotigau drwy frechu.

Mae'r antibiotig a ddefnyddir yn dibynnu ar y pathogen penodol.